Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Karen Roberts**

**Blaenau Ffestiniog**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Karen Roberts yn rhedeg ei gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref ger Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 10 o blant hyd at 12 oed. Cyflogir ei mam fel ei chynorthwyydd. Mae gofal plant ar gael rhwng 7:30am a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd, gan nad yw rhai o'r polisïau a dogfennaeth ar gael yn Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog a'r Gymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn ymateb i anghenion unigol yn effeithiol. Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â gweithdrefnau newid cewynnau er mwyn lleihau'r risg o ledaenu heintiau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant ag amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu. Mae'n brofiadol, yn meddu ar y cymwysterau addas ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth ar gyfer 2016/2017. Gwnaed hyn drwy gasglu adborth gan y rhieni a'r plant ynglŷn â'r gwasanaeth. Hefyd, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym am y ffordd roedd yr ardal awyr agored wedi cael ei datblygu i ddarparu amgylchedd croesawgar, diogel a diddorol ar gyfer gweithgareddau chwarae a dysgu.
Ers yr ymweliad arolygu hwn, mae'r gwarchodwr plant wedi darparu copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru ac adroddiad ar ôl adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer 2017/2018.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni welsom unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â chynllunio gweithgareddau a chadw cofnodion.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel ac maent wedi creu cysylltiadau agos â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn chwilfrydig i archwilio eu hamgylchedd. Mae'r plant yn meithrin cyfeillgarwch ac yn dysgu i aros eu tro a rhannu gyda'u cyfoedion.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac maent yn hyderus wrth fynegi eu hunain.

Roedd y plant yn dewis beth roeddent am ei wneud ac yn rhydd i symud o gwmpas yr ardaloedd gwahanol. Roeddent yn gyfforddus wrth gyfathrebu â'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn hyderus wrth ofyn am yr hyn yr oeddent am ei gael ac yn gwybod y byddai eu dymuniadau a'u dewisiadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu cysgu pan roeddent yn flinedig, ac roeddent yn mwynhau eu byrbryd pan roeddent yn barod. Dywedodd un plentyn ei fod am barhau i chwarae adeg amser cinio; cafodd dymuniadau'r plentyn eu parchu ac roedd yn gallu cael ei ginio ar ôl iddo orffen chwarae.

Mae'r plant yn hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am fod y gwarchodwr plant yn rhoi sylw i'w hymdrechion i gyfathrebu ac yn parchu eu dymuniadau.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel am eu bod yn cael gofal parhaus gan warchodwr plant sy'n eu hadnabod yn dda.

Roedd y plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Roeddent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant, ei chynorthwyydd â'i gilydd. Roeddent yn ddigon hyderus i ddod atom i ddangos beth roeddent yn ei wneud a siarad am yr anrhegion Nadolig roeddent yn mynd i'w cael gan Siôn Corn, gan ddangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Aeth un plentyn at y gwarchodwr plant pan oedd yn teimlo ychydig yn swil, ond setlodd yn gyflym ar ôl i'r gwarchodwr plant ei gofleidio a thawelu ei feddwl. Roedd yn amlwg bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyflawniadau yn cael eu dathlu. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i ddangos i'r gwarchodwr plant eu bod wedi cwblhau jig-so ac roeddent yn wên o glust i glust wrth i'r gwarchodwr plant ganmol eu hymdrechion.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod wedi meithrin cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn dechrau rhannu a chymryd eu tro yn briodol.

Roedd y plant yn cyd-chwarae'n hapus, gan rannu teganau a chymryd troeon. Gwnaeth dau blentyn fwynhau cwblhau jig-so gyda'i gilydd a gwnaethant wylio'n ofalus wrth i'w ffrind gwblhau'r pos. Roedd dau blentyn yn rhoi cyfarwyddiadau i'w gilydd ac yn rhannu adnoddau wrth chwarae gyda doliau. Gwnaethant sgwrsio am yr hyn y byddent yn ei fwydo i'r doliau, â'r ddau'n cymryd tro i ddewis ble fyddent yn mynd â'r doliau ac yn dynwared symudiadau ei gilydd wrth chwarae.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol priodol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd diddordeb yn y gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Roedd amrywiaeth eang o deganau ar gael. Roedd yn hawdd cael gafael arnynt ac roeddent wedi'u storio'n dda er mwyn i'r plant eu dewis yn annibynnol. Roedd y plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ar y gweithgareddau a oedd ar gael iddynt. Er enghraifft, roedd un plentyn yn mwynhau chwarae gyda'r set trenau, gan ddangos y gwahanol gymeriadau i ni.  Roedd wedi ymgolli'n llwyr yn ei chwarae ac wrth ei fodd yn trefnu'r trenau a'r cerbydau eraill i res daclus, cyn chwarae gêm ddychmygus â nhw. Roedd y plant eraill yn mwynhau cwblhau pos mawr. Gwnaethant ganolbwyntio'n dda ar y dasg ac ymfalchïo yn eu gallu i gyflawni'r pos. Roedd cyfleoedd ar gael hefyd i ymlacio a chael amser tawelach. Er enghraifft, roedd y plant yn gallu ymlacio ar y soffas yn y lolfa os oeddent am wneud hynny, ac edrych ar lyfrau.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae, ond maent yn cael cyfleoedd hefyd i fwynhau amser tawel.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Gall y plant gyfeirio eu chwarae eu hunain a dilyn eu diddordebau.

Roedd plant yn cael dewis eu gweithgareddau a dilyn eu diddordebau yn ddirwystr. Er enghraifft, roedd plentyn iau yn mwynhau pasio llyfrau i'r gwarchodwr plant er mwyn iddynt edrych arnynt gyda'i gilydd. Roedd y plentyn yn penderfynu pa storïau y byddent yn eu darllen nesaf ac yn pwyntio at y rhannau o'r llun a oedd o ddiddordeb iddynt er mwyn i'r gwarchodwr plant enwi'r gwrthrychau a gwneud synau anifeiliaid. Pan oedd y plentyn wedi cael digon ar y gweithgaredd hwn neidiodd oddi ar lin y gwarchodwr plant a nodi'r hyn roedd am ei wneud nesaf. Roedd y plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, er enghraifft bwydo eu hunain amser cinio a thacluso. Rhoddwyd digon o amser yn ystod y gweithgareddau hyn i sicrhau bod y plant yn gallu eu cwblhau mor annibynnol â phosib ac ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r plant yn hyderus ac yn llawn cymhelliant am eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol ac yn ymateb i anghenion unigol yn effeithiol. Gwnaethom argymhelliad mewn perthynas â gweithdrefnau rheoli heintiau er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal magwrus ac yn adnabod anghenion unigol y plant yn dda, ond gellid gwneud gwelliannau o ran y ffordd y caiff gweithgareddau eu trefnu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'r ffordd i ddiogelu plant ac o weithdrefnau diogelu. Mae wedi cael hyfforddiant diogelu plant a Chymorth Cyntaf Pediatrig, sy'n golygu bod y gwarchodwr plant yn gwybod sut i weinyddu cymorth cyntaf sylfaenol pan fo angen ac ymdrin ag argyfyngau. Roedd cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cwblhau'n briodol a'u llofnodi gan y rhieni. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal bob mis a'u cofnodi ar rid bob blwyddyn, ond gwnaethom gynghori'r gwarchodwr plant i nodi'r union ddyddiad roedd yr ymarfer tân wedi cael ei gynnal.

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo hylendid da o ran amseroedd byrbryd a chinio; cafodd y byrddau eu sychu cyn bwyta er mwyn sicrhau eu bod yn lân, a chafodd y plant eu cefnogi i olchi eu dwylo er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi ar y gwarchodwr plant yn newid cewynnau'r plant a gwnaethom nodi nad oedd yn dilyn yr arweiniad cyfredol ar newid cewynnau yn llwyr. Rydym hefyd wedi anfon copi o Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru y Blynyddoedd Cynnar i'r gwarchodwr plant er mwyn ei helpu i roi'r gweithdrefnau cywir ar gyfer newid cewynnau ar waith.

Mae'r gwarchodwr plant yn ddigon ymwybodol o'i dyletswyddau i gadw'r plant mor ddiogel ac iach â phosibl.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda'r plant yn eu gofal. Roeddent yn siarad â'r plant mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf, gan ddangos cynhesrwydd ac agosatrwydd gwirioneddol. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn datblygu eu hunan-barch. Roedd y polisi rheoli ymddygiad yn disgrifio sut yr ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd gadarnhaol. Roedd hyn hefyd yn cael ei ail-bwysleisio drwy ein harsylwadau. Cafodd y plant eu hatgoffa'n dawel pan oedd eu hymddygiad yn anaddas ac roedd y gwarchodwr plant yn modelu ymddygiad cadarnhaol, ac yn annog plant i ymgysylltu'n gadarnhaol wrth chwarae. Roedd y plant yn eu

hailgyfeirio at weithgareddau eraill pan sylwodd y gwarchodwr fod y plant yn aflonyddu neu'n cynhyrfu. Roedd hwn yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi llesiant emosiynol y plant drwy ddefnyddio dulliau addas i sicrhau bod y plant yn hapus ac wedi setlo.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd meithringar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant.

Yn ystod trafodaethau â'r gwarchodwr plant, roedd yn glir ei bod yn deall bod angen darparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid oedd gan y gwarchodwr plant unrhyw gynlluniau gweithgareddau ffurfiol ar waith. Dywedwyd wrthym fod y plant yn mynd ar deithiau i'r parc lleol ac yn mynd am dro yn rheolaidd, gan roi cyfle iddynt gael ymarfer corff ac awyr iach. Roedd yn amlwg bod y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn ymwybodol o ddewisiadau'r plant, er enghraifft yr hyn roeddent yn hoffi ei fwyta yn ogystal â'r hyn roeddent yn hoffi ei wneud. Roedd ffeiliau'r plant yn cynnwys cofnodion yn nodi dewisiadau'r plant er mwyn i'r gwarchodwr plant allu diwallu eu hanghenion unigol. Roedd y gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni ar lafar neu drwy negeseuon gwib ar y cyfryngau cymdeithasol, gan roi gwybod iddynt am gynnydd eu plentyn ac am eu diwrnod.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i ddatblygu a dysgu'n dda, ond gallai gwneud gwelliannau i gynlluniau gweithgareddau.

# 3. Yr amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant ag amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran y plant a'u camau datblygu. Roedd yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel lle mae plant yn gallu chwarae ac archwilio ardaloedd gwahanol yn ddiogel.

Roedd y safle a'r ardd yn ddiogel, ac roedd drysau i'r adeilad yn cael eu cadw dan glo i atal mynediad diawdurdod. Roedd peryglon i'r plant wedi'u nodi, ac roedd mesurau wedi'u rhoi ar waith i'w rheoli neu eu dileu os oedd modd. Er enghraifft, roedd y rheiddiaduron wedi'u gorchuddio er mwyn atal y plant rhag cael eu llosgi, ac roedd giât babanod wedi'i osod ar waelod y grisiau i atal y plant rhag defnyddio'r grisiau heb oruchwyliaeth. Roedd asesiadau risg ar gael ar gyfer yr holl ardaloedd a oedd yn cael eu defnyddio gan y plant ac ar gyfer teithiau rheolaidd. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn adolygu'r rhain yn rheolaidd ond nid oedd cofnod o hyn. Gwnaethom gynghori’r gwarchodwr plant i gofnodi pryd y caiff yr asesiadau risg eu hadolygu neu eu diweddaru er mwyn ei gwneud yn haws iddi fonitro bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod diogelwch y plant yn flaenoriaeth, a bod y mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, a lle y bo'n bosibl, eu dileu.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd cartrefol ac sydd mewn cyflwr da.

Roedd yr eiddo wedi'i addurno'n dda, yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Roedd gan y plant lolfa fawr a oedd â digon o le iddynt symud o amgylch a chwarae neu eistedd a gorffwys ar gelfi cyfforddus. Hefyd, roedd y plant yn gallu eistedd wrth fwrdd a chadeiriau o faint addas ar gyfer plant i gwblhau gweithgareddau crefft, neu wrth y bwrdd bwyd gyda'r gwarchodwr plant. Roedd blychau storio lefel isel yn galluogi'r plant i estyn rhai teganau ac adnoddau'n annibynnol a gwnaethom drafod sut y gallai defnyddio labeli helpu annibyniaeth plant iau gan y byddant yn gwybod beth oedd yn cael ei storio ym mhob blwch. Roedd y plant yn gallu defnyddio'r ardd lle gallent chwarae, a oedd yn cynnwys pwll tywod, tŷ bach twt, trampolîn, llithren a chyfarpar chwarae eraill a oedd yn addas i'w hoedran.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch cartrefol ac yn sicrhau bod gan y plant fynediad i ardaloedd chwarae croesawgar a diddorol i hybu eu mwynhad.

## 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau addas sydd o ansawdd da i wella eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant yn cynnwys doliau, posau jig-so, gemau, teganau cerdd, deunyddiau crefft, set trenau, ffigurau a thŷ chwarae. Dywedodd y gwarchodwr plant fod y teganau yn cael eu newid yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth eang ac nad oeddent yn diflasu ar y teganau a oedd ar gael. Roedd cadeiriau uchel, seddi 'booster' a stepiau ar gael, sy'n annog annibyniaeth ac yn helpu eu datblygiad. Roedd y rhain hefyd yn lân ac mewn cyflwr gweithio da.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant sy'n addas o ran eu datblygiad.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, yn meddu ar y cymwysterau addas ac yn cynllunio gwelliannau er mwyn rhedeg y gwasanaeth yn effeithiol. Meithrinwyd cydberthynas dda â'r rhieni a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n effeithiol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau.

Gwnaethom adolygu datganiad o ddiben y gwarchodwr plant, nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac roedd rhywfaint o wybodaeth nad oedd yn gywir bellach. Gwnaethom gynghori'r gwarchodwr plant i'w ddiwygio er mwyn darparu disgrifiad cywir o'r gwasanaeth. Ers hynny, rydym wedi cael copi diwygiedig o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw ffeil o wybodaeth a oedd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau yn ogystal â thystysgrifau i ddangos ei bod wedi mynychu hyfforddiant a chyrsiau. Gofynnwyd i'r gwarchodwr plant sicrhau bod rhif ffôn cyfredol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r adran gwasanaeth cymdeithasol lleol yn y polisïau. Nododd y gwarchodwr plant ei bod yn adolygu'r polisïau a'r dogfennau bob blwyddyn ac fe wnaethom ei chynghori bod angen iddi nodi'r dyddiad roeddent yn cael eu hadolygu. Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofrestr o bresenoldeb y plant bob dydd yn cynnwys eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Gwelsom o gofnodion ysgrifenedig ei bod yn gofyn i rieni gwblhau ffurflenni cofrestru a chontractau cyn i'r plant ddechrau ac roedd y rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd fel bod y gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion cyfredol pob plentyn.

Yn gyffredinol, mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol ond mae angen iddi wella rhai ymarferion er mwyn bodloni ein safonau yn llawn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau ar waith i adolygu ansawdd ei gwasanaeth.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd wedi derbyn unrhyw bryderon am y gofal mae'n ei ddarparu. Dangoswyd adroddiad i ni yn adolygu ansawdd y gofal. Cafodd hyn ei lunio ar gyfer y flwyddyn 2016/2017 gan ddefnyddio ymatebion i holiaduron a roddwyd i rieni. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hefyd wedi casglu adborth ar lafar gan y plant, ac eglurodd sut roedd eu barn hwythau wedi cael ei hystyried wrth gynllunio ar gyfer gwelliannau. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd wedi ysgrifennu'r adroddiad yn dilyn adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y flwyddyn 2017/2018 eto, a gwnaethom atgoffa'r gwarchodwr plant o'r angen i sicrhau bod adroddiad yn cael ei lunio yn amlygu'r adborth a gafwyd ac unrhyw welliannau a wnaed. Ers hynny, mae'r gwarchodwr plant wedi anfon copi o'r adroddiad terfynol atom.

Mae'r gwarchodwr plant yn croesawu adborth ar ei gwasanaeth ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n diwallu anghenion y plant a'u rhieni.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn deall ei chyfrifoldebau wrth reoli'r gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl ac roedd yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd yn sicrhau ei bod yn mynychu cyrsiau hyfforddi'n rheolaidd er mwyn datblygu ei gwybodaeth, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar Gymorth Cyntaf Pediatrig a Diogelu Plant. Roedd gan y gwarchodwr plant, cynorthwyydd y gwarchodwr plant a'r oedolion dros 16 oed a oedd yn byw yn y gwasanaeth dystysgrifau dilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd hyn yn dangos ei bod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n cael cyswllt â'r plant yn meddu ar y cliriadau perthnasol. Hefyd, roedd y gwarchodwr plant wedi llunio ffeil staff ar gyfer y cynorthwyydd a oedd yn cynnwys geirdaon, hanes cyflogaeth, dogfennau hunaniaeth a thystysgrifau hyfforddi.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn briodol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni, gan sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n effeithiol.

Roedd gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a dywedodd wrthym ei bod yn rhannu gwybodaeth ar lafar a thrwy ddefnyddio naill ai negeseuon testun neu wasanaethau negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Drwy wneud hyn, gellir rhannu ffotograffau'n hawdd, a gall y rhieni gyfathrebu â'r gwarchodwr plant yn hawdd ac yn effeithiol i drafod anghenion eu plentyn. Hefyd, dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn trafod unrhyw anghenion penodol ar neu feysydd i'w datblygu â'r rhieni, ac y byddai'n cynnwys gwybodaeth fwy penodol sy'n ymwneud â hyn yn y negeseuon i'r rhieni, yn ôl yr angen. Roedd hyn wedi'i atgyfnerthu gan y negeseuon a welsom. Roedd y plant a'r gwarchodwr plant yn dweud wrthym am y ffordd roeddent yn defnyddio eu hamwynderau lleol, megis grwpiau plant bach, y parc a lle chwarae meddal yn rheolaidd, ac yn mwynhau ymweld â gweithgareddau lleol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae gan y gwarchodwr plant gysylltiadau da â'r gymuned ac mae wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion arfer da canlynol i'r gwarchodwr plant eu hystyried:

- Gwneud newidiadau i'r polisi newid cewynnau yn unol ag arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi;
- rhoi prosesau mwy ffurfiol ar waith ar gyfer cynllunio gweithgareddau a chadw cofnodion am gynnydd y plant er mwyn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf: a
- nodi/cadw cofnod o'r union ddyddiad roedd yr ymarferion tân yn cael eu cynnal, a nodi dyddiad adolygu polisïau ac asesiadau risg ar bob dogfen.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 19 Tachwedd 2018 rhwng 9:45 a.m. a 12:50 p.m.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion ac arsylwi er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd;
- siarad â'r gwarchodwr plant, ei chynorthwyydd a'r plant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad, a
- rhoi adborth manwl ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Karen Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 7:30 a.m. a 6:00 p.m., o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **12 Hydref 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **19 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |